# PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Llun, 22 Gorffennaf 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd D Macey
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd W Jones

### Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol

Mr C Jones, Cynrychiolydd GMB
Mr J Fish, Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr wedi'i ethol

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd M Powell

**1 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**2 Cyflwyno a Gweithdrefnau**

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau a'r cyhoedd i Gyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cyflwynodd y Cadeirydd y Swyddog i'r Aelodau a'r cyhoedd, gan esbonio'r rheolau gweithdrefn i bawb.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai tri aelod o'r cyhoedd, hynny yw Mrs A Tritschler, Dr L Arthur, a Ms H Cooke, yn cael gwahoddiad i annerch y Pwyllgor mewn perthynas â moderneiddio gofal preswyl a gofal oriau dydd ar gyfer pobl hŷn.

## 3 Cyn craffu – Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan roi gwybod i Aelodau, a hynny'n rhan o drefn y cyfarfod, i dri aelod i'r cyhoedd wneud cais am gael siarad gerbron y Pwyllgor, sef Dr L Arthur, Mrs A Tritschler, a Mrs H Locke, ac y bydden nhw'n cael gwahoddiad i wneud hynny.

Esboniodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiben yr adroddiad ynglŷn â moderneiddio gofal preswyl a gofal oriau dydd ar gyfer pobl hŷn. Aeth e yn ei flaen i egluro'r rhesymau dros yr adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu heno, sef caniatáu i Aelodau ymgymryd â gwaith cyn craffu ar yr adroddiad sy'n nodi canlyniad y broses ymgynghori 12 wythnos â'r cyhoedd, trigolion, a staff. Esboniodd y byddai sylwadau'r Aelodau yn rhan o'r adborth y bydd y Cabinet yn ei gael, pan fydd yn trafod y mater yma. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sylw Aelodau y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i gael newyddion rheolaidd ynghylch cynnydd y mater, a lle bo angen, rhoi adborth i'r Cabinet i sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gyfrannu at y cynigion.

Bwriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Demcrataidd a Chyfathrebu olwg yn ôl dros ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hyd yma, gan gyfeirio at y gwaith craffu blaenorol gan y Pwyllgor ar Strategaeth Gofal Ychwanegol y Cyngor (Medi 2017) a'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio gan Swyddogion ar gyfer ymgynghori posibl (Rhagfyr 2018).

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod ymgymgymryd â gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar hyn o bryd yn y broses dod i benderfyniad yn gwella atebolrwydd ac yn cynorthwyo'r Cabinet ynglŷn â dod i benderfyniadau ar y materion yma yn y dyfodol.

Galwodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ar Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion i gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau a'r Cyhoedd.

Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y rhesymau dros yr angen i foderneiddio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a'u gwella'n barhaus, yn Rhondda Cynon Taf. Soniwyd bod poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu a bod pobl yn byw'n hirach, ynghyd â'r disgwyl y bydd dementia a salwch cyfyngedig, hir tymor yn effeithio ar ragor ohonyn nhw. O ganlyniad i hynny, mae rhaid i'r Cyngor barhau i gynnal gwasanaethau gofal mor effeithiol ag sy'n bosbl i wneud y mwyaf o'r buddion a rheoli pwysau o ran costau. Rydyn ni o'r farn o hyd bod pobl eisiau aros yn eu cartrefi'u hunain lle y bo'n bosibl, ac mae buddsoddi yn rhaglen datblygu Gofal Ychwanegol a pharhau i foderneiddio gwasanaeth Cymorth Gartref a gwasanaethau cymorth eraill i oedolion yn anelu at ddiwallu anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymuned yn well. Byddwn ni hefyd yn parhau i geisio

ymateb yn y modd mwyaf addas i anghenion unigolion yn y cyswllt o'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ogystal â sicrhau'u bod nhw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Oherwydd hynny, bydden ni eisiau canolbwyntio'n glir ar roi cymorth ynglŷn ag achosion cymhleth a darpariaeth gofal seibiant.

Dywedodd swyddogion fod galw am leoedd gofal preswyl wedi lleihau, yn bennaf oherwydd bod pobl yn dewis byw yn eu cartrefi'u hunain cyhyd ag y bo modd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion fod 140 o leoedd gwag mewn cartrefi preswyl a nyrsio, fel yr oedd hi ar 28 Mai 2019; mae hynny'n cynnwys 105 o leoedd gofal preswyl yn RhCT.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant hefyd at lythyr diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru: Mae cydnabyddiaeth o'r angen i ddiweddaru darpariaeth llety oedolion mewnol yr awdurdod, yn unol ag anghenion a disgwyliadau newidiol pobl. Mae angen cynnal a chyflymu datblygiad y newid hwn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn unol ag anghenion presennol ynghyd â rhai a ragwelir. Mae'r bwriad i estyn cyfleusterau gofal ychwanegol ymhellach, yn seiliedig ar adeilad newydd llwyddiannus yn Tonysguboriau a'r adeilad newydd ar safle cyfleuster gofal preswyl blaenorol, yn enghraifft o ymateb ymarferol yr awdurdod lleol i'r angen hwn a nodwyd."

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion i Gyngor Rhondda Cynon Taf gomisiynu cwmni Practice Solutions Ltd i gynnal adolygiad annibynnol ar gartrefi gofal preswyl a gwasanaethau oriau dydd ar gyfer pobl hŷn. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwaith ymchwil i ddechrau, gyda gwaith yn y maes i ddilyn hynny, a oedd yn cynnwys mynd i gartrefi gofal a gwasanaethau oriau dydd sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Cafodd y Cynghorwyr wybod i'r data a'r canfyddiadau gael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2018. Cytunodd y Cabinet ar nifer o argymhellion ynglŷn â model cynnal gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi a Gwasanaethau Gofal y Cyngor.

Fel byddai Aelodau yn cofio, roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o blaid y cyfeiriad i'w ddilyn a'r penderfyniad i ymgynghori ar fodel cynnal gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal a Gwasanaethau Gofal Oriau Dydd y Cyngor. Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion wybod i Aelodau am y prif faterion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd, fel ei gilydd, a oedd yn cynnwys safon y gofal a chymorth sydd ar gael, lleoliad y cartrefi, y goblygiadau ariannol i unigolion sy'n symud i gartrefi gofal preifat.

Clywodd y Cynghorwyr i'r broses ymgynghori ddigwydd o 14 Ionawr 2019 i 8 Ebrill 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu cymaint o sylwadau ag y bo modd gan randdeiliaid â buddiant, yn gymorth i'r Cyngor yn ei broses dod i benderfyniad ynglŷn â strwythur gwasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd ar gyfer pobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol.

Soniodd Swyddogion i holiaduron gael eu defnyddio i geisio barn pobl, ynghyd â'r achlysuron ymgynghori. Cafodd Aelodau wybod i 372 o ymatebion ddod i law mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaethau preswyl. Roedd cyfeiriad at 47.3% o bobl a gytunodd â dewis ffafriedig y Cyngor i gadw'r lefel o ddarpariaeth y cartrefi gofal preswyl, sy'n canolbwyntio ar ddarparu ofal cymhleth a seibiant. Roedd 34.9% yn anghytuno â dewis ffafriedig y Cyngor.

O ran y dewis sydd orau gan y Cyngor i ddadgomisiynu ei wasanaethau oriau dydd yn raddol yn rhan o raglen wedi'i chynllunio o drawsnewid yn unol â'r model cynnal gwasanaethau newydd arfaethedig, dywedodd y swyddogion fod 53% o'r bobl a atebodd yn gwrthwynebu'r dewis ffafriedig hwnnw. Cytunodd 48.3% o'r bobl â'r dewis o wneud dim.

Cafodd yr Aelodau'r adroddiad ymgynghori manwl, ynghyd â chrynodeb o'r prif themâu a ddeilliodd o'r ymgynghoriad; gan gynnwys ymatebion swyddogion.

I gloi, rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion grynodeb o'r opsiynau:

Cartrefi Gofal Preswyl:

- Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol - Dim newid
- Cynnig 2: Dadgomisiynu pob un o gartrefi gofal y Cyngor yn raddol yn rhan o'r rhaglen drawsnewid wedi'i chynllunio, yn unol â gweithredu rhaglen datblygu gofal ychwanegol y Cyngor a safle marchnad gofal Cwm Taf.
- Cynnig 3: (Y cynnig roedd y Cabinet yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori): Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu Cartrefi Gofal Preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a gofal seibiant

Gofal Oriau Dydd:

- Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol - Dim newid
- Cynnig 2: Dadgomisiynu gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid sy wedi'i chynllunio yn unol â'r model gwasanaeth newydd arfaethedig - dyma'r cynnig sy'n cael ei ffafrio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad manwl, gan ddweud y byddai'r tri aelod o'r cyhoedd nawr yn annerch y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cafodd y tri siaradwr o du'r cyhoedd, Dr L Arthur, Mrs A Tritschler a Mrs H Locke, y cyfle i annerch y Pwyllgor:

Dywedodd Dr L Arthur, sy'n aelod o'r Grŵp Ymgyrchu Save Care Homes and Centres (SCHAC) ei fod am gadarnhau fod y grŵp yn gefnogol o'r agenda a pholisïau moderneiddio sy'n rhoi dewis a chymorth i bobl, ond roedd o'r farn bendant fod y newid oherwydd y cyni ariannol a gofynion arbed arian. Rhoddodd Dr Arthur wybod i'r Pwyllgor hefyd fod y grŵp yn galw am gynhadledd Cymru-gyfan ar ofal preswyl ac i'r Cyngor ohirio unrhyw doriadau nes bod honno wedi'i chynnal. Cwestiynodd e ddiffiniad gofal cymhleth, ac roedd o'r farn y byddai galw am ofal preswyl yn cynyddu yn y dyfodol, hyn hytrach na lleihau, fel roedd ffigurau'r Cyngor yn awgrymu.

Diolchodd Mrs A Tritschler, Cadeirydd Older Person's Advisory Group (OPAG) Rhondda Cynon Taf i'r Pwyllgor am y cyfle i siarad ar bwnc hynod ddadleuol. Dywedodd hi fod OPAG yn goruchwylio'r Fforymau 50+ yn Rhondda Cynon Taf, sy'n cyfrannu at roi cymorth i fyw yn annibynnol ac i gadw'n fywiog. Dywedodd hi fod y grŵp yn gwrthwynebu'n gryf cau'r cartrefi gofal preswyl heb ddewisiadau addas eraill, a bod aelodau yn amheus o gartrefi gofal preifat a bod ganddyn nhw ddiffyg hyder yn yr hyn maen nhw'n ei ddarparu. Soniodd Mrs Tritschler i nifer o'r bobl yn y grŵp fynd i ddarpariaeth Gofal ychwanegol Tŷ Heulog. Roedd

trafnidiaeth yn bryder arall, a'r ddarpariaeth yng Nghwm Rhondda Fach lle dyw hi ddim yn ymddangos bod dewis arall.

Yn olaf, daeth Ms H Locke i siarad ar ran preswylwyr Cartref Gofal Preswyl Parc Newydd yn Nhonysguboriau. Soniodd hi wrth Aelodau am y gwasanaeth o'r radd flaenaf y mae preswylwyr yn ei gael yn y cartrefi gofal sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol, gan ddweud ei bod hi hefyd wedi ymweld â darpariaeth Gofal Ychwanegol Tŷ Heulog; ac er bod y ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda, roedd hi o'r farn na fyddai hi'n addas ar gyfer anghenion 'mwy dwys'.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r rheiny o'r cyhoedd am eu cyfraniad, gan ganiatáu i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ateb y pwyntiau a gafodd eu codi.

Esboniodd e mai diben y broses ymgynghori oedd cael barn y cyhoedd ar sut gall yr Awdurdod barhau i wella a moderneiddio'i wasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd, gan bwysleisio nad oedd hyn mewn ymateb i gyni ariannol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn parhau o'r farn bod angen o hyd am beth ddarpariaeth gofal mewnol, a hynny er gwaethaf bod lleoedd gwag yn y sector preifat – mae gan bobl ddewis ac rydyn ni'n edrych i gynnig dewisiadau gwell yn y dyfodol.

Mewn ateb i'r cwestiwn am ddarpariaeth gofal ychwanegol, esboniodd y swyddogion fod y ddarpariaeth yma'n cael ei defnyddio'n helaeth, mae'n effeithiol yn nhermau costau, ac mae'n rhoi modd i'r preswylwyr fyw mor annibynnol ag y bo modd mewn amgylchedd sy'n cynnwys gofal a chymorth 24 awr i ddiwallu unrhyw anghenion newidiol. Mewn perthynas â'r pryderon ariannol, esboniodd Swyddogion y rheolau ar lefelau'r arbedion, incwm, budd-daliadau ac ati a sut mae'n cymharu â chartrefi gofal.

Gwahoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Mr Sherlock o Practice Solutions i roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y cysyniad o ddarparu gofal ychwanegol a'r ffordd y mae wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio mewn mannau eraill. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr ymateb, ac agorodd yr eitem ar gyfer trafodaeth. Gofynnodd Aelod gwestiwn i Mr Sherlock ynglŷn â pha brofiad sydd ganddo fe mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Mewn ymateb, eglurodd fod ganddo dros 46 mlynedd o brofiad ym maes gofal cymdeithasol a rhoddodd gefndir ar waith cwmni Practice Solutions.
Dywedodd Aelod fod pawb yn cael gwahanol brofiadau o ran gofal ac er bod pobl eisiau aros gartref a byw'n annibynnol, dyw hyn ddim bob amser yn gweithio a mynegodd bryderon ynghylch cyplau yn cael eu gwahanu, ac mae hyn, yn aml iawn, yn golygu nad yw'r ddau yn byw llawer hirach. Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, y gallai gofal ychwanegol fod yn ateb i hyn gan ei fod yn caniatáu i gyplau fyw'n annibynnol gyda chymorth os oes ei angen. Bydd nifer o ystafelloedd dwbl ar gael ym mhob cyfleuster.

Mewn perthynas â'r newidiadau, gofynnodd Aelod pa effaith y byddai'n ei chael ar oedi wrth drosglwyddo gofal (blocio gwelyau) ac a fydd y dull hwn yn y pen draw yn costio mwy i breswylwyr. Esboniodd swyddogion na ddylai fod unrhyw effaith andwyol ac y byddai'n darparu mwy o opsiynau a dewis.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar ofal dementia ac roedd e o'r farn bendant bod

angen i ni fel Awdurdod edrych ar urddas pobl a'u hanghenion. O ran hygyrchedd, roedd y Cadeirydd eisiau eglurder ynghylch y cyfeiriad at radiws o bum milltir yn yr adroddiad. Cododd bryderon y gallai'r ddarpariaeth ofal yn ardal Rhondda Fach, yn ddaearyddol, beri pryder gan y gallai olygu y byddai'r preswylydd yn cael mynd y tu allan i'r ardal e.e. Cwm-bach sydd ddim yn ymarferol i drigolion nac aelodau o'r teulu.

Esboniodd swyddogion fod y radiws 5 milltir yn fodd sy'n cael ei ddefnyddio i'n helpu i ystyried yr hyn sydd ar gael yn lleol. Mae pobl eisiau aros yn eu cartrefi'u hunain lle y bo'n bosibl, ac mae buddsoddi yn rhaglen datblygu Gofal Ychwanegol a pharhau i foderneiddio gwasanaeth Cymorth Gartref a gwasanaethau cymorth eraill i oedolion yn anelu at ddiwallu anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymuned yn well. Byddwn ni hefyd yn parhau i geisio ymateb yn y modd mwyaf addas i anghenion unigolion yng nghyd-destun yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ogystal â sicrhau'u bod nhw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Oherwydd hynny, bydden ni eisiau canolbwyntio'n glir ar roi cymorth ynglŷn ag achosion cymhleth a darpariaeth gofal seibiant.

Mae Gofal Cymhleth yn derm trosfwaol sy'n cael ei ddefnyddio i gynrychioli llu o ffactorau sy'n cyfrannu at anghenion gofal cyffredinol unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys anghenion emosiynol, ffisiolegol, cymdeithasol, personol, synhwyraidd, cyfathrebu, amgylcheddol ac iechyd. Mae angen ystyried unigolion a'u hamgylchiadau unigol yn y broses asesu lle mae lefelau amrywiol pob un o'r ffactorau uchod yn cael eu hystyried - yna gellir gwneud penderfyniad ar lefel a chategori gofal unigolyn. Bydd yr asesiadau yn cael eu cynnal gan reolwyr gofal cymwys, medrus, rheolwyr cartref cofrestredig a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Tynnodd Aelod sylw at werth pwysig yr awdurdod lleol o ran parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu gofal preswyl, gan gydnabod fod disgwyliadau ac anghenion pobl yn newid. Parhaodd yr Aelod trwy ddweud ei bod o blaid y ddarpariaeth gofal ychwanegol, ond mae angen gofyn cwestiynau allweddol ynglŷn â data. Mae ei phwynt olaf ynglŷn â gwasanaethau gofal oriau dydd a mynd i'r afael ag unigrwydd a heriau dementia yn tynnu sylw at yr angen i ddod o hyd i fodel i wella gwasanaethau i'r bobl hŷn yn RhCT.
Esboniodd swyddogion fod gofal dementia yn flaenoriaeth allweddol ac mai angen fyddai'r ffactor pwysicaf o hyd ar gyfer cyrchu gwasanaethau. O ran gwasanaethau gofal oriau dydd, cyfeiriodd swyddogion at ddatblygu Hybiau Cymunedol a sut y byddai gwasanaethau gofal oriau dydd arbenigol yn canolbwyntio ar yr achosion mwy cymhleth. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth dementia yn ein datblygiadau Gofal Ychwanegol arfaethedig byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ganolbwyntio ein gofal preswyl ar yr achosion cymhleth hynny (gan gynnwys lefelau dementia) na fyddai'n cael ei gefnogi'n ddigonol gartref, neu mewn ffyrdd eraill e.e. gofal ychwanegol ac ati. Mae'r safonau Cofrestru newydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni a fyddai eto yn yn gymorth i ni i wella'r ystod o opsiynau a lefelau cymorth y mae angen eu cwrdd mewn cartrefi Preswyl.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddog a oedden nhw'n seilio eu hadroddiad ar lefelau cyfredol y galw neu dueddiadau'r dyfodol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion mai dyma lefel bresennol y galw a chymhwyso dadansoddiad ystadegol ar gyfer y dyfodol. Yn adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rydyn ni wedi crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud i gael gwell dealltwriaeth o'r galw a ragwelir am dai gofal ychwanegol a darpariaeth cartrefi gofal yn Rhondda Cynon Taf ac wedi cymharu hyn â'r

ddarpariaeth bresennol. I wneud hyn, defnyddiwyd y model rhagolwg “Mwy o Ddewis, Llais Mwyaf” fel y model sylfaenol ar gyfer pennu galw'r dyfodol.

Rydyn ni wedi darparu sylfaen dystiolaeth yn yr adroddiad ac mae'r bwriad strategol i symud i ffwrdd o ofal sefydliadol ac i wasanaethau cartrefi gofal ganolbwyntio ar gefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth a lefelau difrifol o ddementia yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r ddogfennaeth ranbarthol a lleol sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet o'r blaen gan gynnwys yr adroddiad annibynnol gan Practice Solutions.

Er bod anawsterau achlysurol o ran dod o hyd i leoedd i bobl mewn cartrefi gofal lleol, does dim unrhyw ddiffygion sylweddol yn y ddarpariaeth yn gyffredinol ac mae hyn yn awgrymu bod gormodedd yn lefel bresennol y ddarpariaeth ar gyfer gwelyau preswyl; tra bod gwelyau nyrsio yn cael eu defnyddio'n fwy aml.

Bydd y datblygiad arfaethedig o gartrefi gofal ychwanegol hefyd yn darparu mwy o ddewis i bobl sydd angen lefelau cynyddol o ofal personol. Disgwylir i ddewis o'r fath leihau'r galw am ofal preswyl. Fodd bynnag, does dim disgwyl iddo gael cymaint o effaith ar y galw am ddarpariaeth gofal nyrsio. O ystyried prinder cartrefi gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, tybir y gallai 35% o bobl a roddwyd mewn cartref gofal preswyl fod wedi bod yn addas ar gyfer gofal ychwanegol. Gall argaeledd gofal ychwanegol hefyd annog pobl i ddewis y math hwn o lety cyn i sefyllfa o argyfwng ysgogi'r angen am leoliad cartref gofal. Byddai'r effaith hon yn awgrymu y bydd y galw am ofal preswyl yn gostwng wrth i argaeledd gofal ychwanegol gynyddu.

Yn olaf, bydd yr amserlenni ar gyfer ein rhaglen foderneiddio helaeth ac uchelgeisiol yn caniatáu inni addasu ein dull yn ôl yr angen.

Tynnodd Aelod arall sylw at bwysigrwydd buddsoddi yn y gwasanaeth a diolchodd i swyddogion am gynnal ymgynghoriad mor helaeth. Gofynnodd Aelod a fydd y gofal mewn cartrefi gofal ychwanegol dan ofal cwmnïau allanol. Mynegodd yr Aelod bryder ei bod yn teimlo nad ydyn ni'n gwybod a fydd adeilad yn cael ei gadw yn y sector cyhoeddus ac aeth ymlaen i ddweud nad yw pobl mewn gofal ychwanegol yn cael yr un diogelwch â phobl mewn gofal preswyl. Parhaodd yr Aelod i nodi mai ei farn/barn oedd nad oedd y Cyngor wedi buddsoddi'n ddigonol mewn cartrefi preswyl a gofynnodd pam na wnaed hyn cyn cyrraedd yr hyn a ddisgrifiodd yr aelod fel 'pwynt argyfwng'.

Esboniodd swyddogion, er bod comisiynu gofal yn allanol yn aml yn wir mewn datblygiadau gofal ychwanegol, roedd y Cabinet wedi penderfynu y byddai'r gofal yn cael ei ddarparu gan y Cyngor yn ei ddatblygiadau gofal ychwanegol mwy. Mae cartrefi gofal mewnol y Cyngor yn adeiladau wedi'u dyddio, ac er bod ansawdd y gofal gan staff yn dda, dyw'r cyfleusterau bellach ddim yn cyrraedd safonau modern. Adeiladwyd y cartrefi dros 30 mlynedd yn ôl a doedden nhw ddim i fod i fodloni disgwyliadau cyfredol llety ac fe'u hadeiladwyd ar gyfer cenhedlaeth wahanol o bobl hŷn i rai heddiw. Mae cartrefi gofal pwrpasol modern wedi'u cynllunio i fod yn addas ar gyfer dementia a bod â safon gofod fwy i gefnogi anghenion symudedd / codi. Mae ganddyn nhw hefyd gyfleusterau en-suite, felly mae modd i bobl ddefnyddio'r toiled eu hunain. Mae hyn yn amlwg yn rhan bwysig iawn o gynnal ymdeimlad rhywun o urddas ac annibyniaeth. Wedi dweud hynny, mae cartrefi’r Cyngor yn cwrdd â’r gofynion rheoliadol cyfredol ac mae'r adroddiad Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno gwybodaeth am yr hyn fyddai ei angen i ddod â nhw i safonau modern ynghyd â manylion am y

goblygiadau. Fel y dywedwyd eisoes, does dim unrhyw bryderon ynghylch ansawdd cyfredol y gofal.

Gan roi sylwadau a chwestiynau pellach i'r swyddog, cwestiynodd yr Aelod y data sydd wedi'i gyflwyno a nododd fod y data'n ddiffygiol gan fod cyfyngiad derbyn wedi'i roi mewn perthynas â derbyniadau mewn cartrefi gofal. Y pwynt olaf, roedd yr Aelod eisiau mynd i'r afael ag ef oedd ynghylch goblygiadau ariannol Gofal Ychwanegol.

Esboniodd swyddogion fod y proffil demograffig yn ceisio cydbwyso'r ddealltwriaeth o'r galw a'r disgwyliadau newidiol ar gyfer y dyfodol gyda ffocws clir ar wella'r ystod o opsiynau sydd ar gael i gynyddu annibyniaeth i'r eithaf. Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod data wedi'i gyflwyno yn dangos y sefyllfa cyn unrhyw gyfyngiadau ac unwaith eto eglurodd y rhesymeg dros y cyfyngiadau. O ran y sylw yn ymwneud â phobl yn gorfod gwerthu eu cartrefi i dalu am y gofal, esboniodd Swyddogion y gwahanol drefniadau ariannol sy'n berthnasol i Ofal Ychwanegol.

Dywedodd Aelod, ar ôl edrych ar y wybodaeth gan y siaradwyr cyhoeddus ac os oes angen adnewyddu'r adeilad, a oes ganddyn nhw'r un gofynion ag adeilad newydd o hyd neu a allwn ni fynd o gwmpas hyn?

Esboniodd y Swyddog fod Cartrefi'r Cyngor yn dal i fodloni safonau rheoleiddio ond pwysleisiodd bwysigrwydd darparu'r cyfleusterau gorau posibl i'n pobl gan ystyried disgwyliadau newidiol. Byddai angen i unrhyw adeilad newydd gyrraedd y safonau newydd.

Holodd nifer o Aelodau yr angen i ystyried cydbwysedd daearyddol o fewn cymoedd priodol Rhondda Cynon Taf, gan gyfeirio'n benodol at ardal Cwm Rhondda Fach a'r pryderon posibl yn ymwneud â thrafnidiaeth.
Mewn ymateb i farn yr Aelodau, esboniodd swyddogion fod y dadansoddiad radiws pum milltir yn offeryn i ddarparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn ardaloedd priodol Rhondda Cynon Taf.

Gofynnodd yr aelodau sut y byddai unrhyw newid yn cael ei reoli ar gyfer preswylwyr cyfredol wrth symud ymlaen.

Byddai gweithiwr cymdeithasol yn cael ei neilltuo ar gyfer pob achos unigol, byddai gan bob unigolyn ddewis. Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad Trosolwg a Chraffu, pe bai unrhyw newid y cytunwyd arno bydd y preswylydd a'r teulu yn cael eu cefnogi gan Ymarferydd Gofal Cymdeithasol a fydd yn asesu anghenion unigol ac yn trafod yr hyn sy'n well gyda nhw, ac yn helpu i ddewis gwasanaeth amgen priodol. Bydd hyn yn ystyried materion penodol fel cyfeillgarwch hirsefydlog. Lle bo hynny'n briodol, bydd gweithwyr gofal proffesiynol eraill gan gynnwys meddygon teulu yn cymryd rhan, ynghyd â staff o'r cartref, a fydd, cyn belled ag y bo modd, yn cefnogi trosglwyddiad pob preswylydd i wasanaeth amgen.

Roedd Aelod eisiau eglurder ynghylch y ddarpariaeth gofal oriau dydd gan ei fod yn teimlo ei fod yn achubiaeth i rai aelodau o'r gymuned a phe bai'r ddarpariaeth yn cael ei thynnu, byddai'n cael effaith niweidiol ar eu hanghenion yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth oni bai bod

darpariaeth newydd ar gael. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio canolfannau oriau dydd i bobl hŷn ar hyn o bryd, mae yna ymrwymiad y bydd pob unigolyn, ag angen wedi'i asesu, yn parhau i gael yr un lefel o wasanaeth ag y maen nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd o dan unrhyw fodel gwasanaeth newydd. Mae hyn yn bwysig i'w bwysleisio gan fod rhai pobl wedi dehongli'r cynnig ynghylch dad-gomisiynu fel colli gwasanaeth yn hytrach na newid gwasanaeth.

Roedd Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgor eisiau eglurhad ar ychydig o bwyntiau. Gofynnodd am sicrwydd na roddodd yr Awdurdod stop ar osod pobl mewn cartrefi gofal cyn yr adroddiad.

Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, er bod y cyfyngiad wedi'i gymhwyso, roedd nifer o bobl wedi'u gosod yn y cartrefi gofal pan oedd hynny'n opsiwn priodol.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Lles i'r Aelodau am y cyfle i siarad ac eglurodd fod y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles yn cydnabod nad yw gwneud dim yn gynaliadwy a bod pobl yn byw yn hirach gyda'r disgwyliadau'n newid. Esboniodd fod y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles wedi rhoi sylw i'r mater o argaeledd darpariaeth y sector preifat, yn lleol a bod bylchau. Gofynnodd i Swyddogion a ydyn nhw'n credu bod y sector preifat yn gynaliadwy yn ariannol. Esboniodd swyddogion fod risg bob amser ond mae yna wasanaethau nad yw'r Cyngor yn eu darparu e.e. gofal nyrsio. Cadarnhaodd swyddogion fod perthynas waith dda iawn gyda'r sector preifat ac roedden nhw'n teimlo bod hyn yn gryfach nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chyflawiad i'r Pwyllgor am y cyfle i gyfrannu. Dywedodd yr aelod fod y newidiadau sy'n cael eu hystyried yn hir-ddisgwyliedig yn ei farn ef, yn enwedig o'u gweld nhw yn erbyn y cynnydd a wnaed mewn gwledydd Ewropeaidd eraill i foderneiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn i fodloni gofynion a disgwyliadau newidiol.

Cymerodd y Pwyllgor farn cynrychiolwyr yr undebau llafur.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau, y cyhoedd a'r swyddog am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd ei fod yn credu, yn dilyn trafodaethau'r pwyllgor, ei bod yn amlwg bod gwerth mawr yn cael ei roi ar gynnal gwasanaeth gan awdurdodau lleol a bod hyn yn rhywbeth, yn amlwg, y mae'r pwyllgor yn ei rannu, gan gydnabod hefyd bod angen i bethau newid, i gefnogi pobl sy'n byw hirach, i gael dewis i wneud hynny'n annibynnol.

Cydnabu'r Cadeirydd fod Cyfarwyddwr y Gyfadran a'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i'r awdurdod lleol gynnal gwasanaethau. Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn arall, gan ofyn am farn y Cyfarwyddwr, pe bai'r sefyllfa yn codi lle byddai'r Cabinet yn symud ymlaen â'r model a ffefrir a oedd yn destun ymgynghoriad, a fyddai'r Cyngor yn gwneud y peth iawn a pham? Credai'r Cadeirydd fod y sylw hwn yn bwysig ar gyfer y cofnod.
Mewn ymateb i'r cwestiwn, ail-gadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei ymrwymiad i'r agenda newid a gwella a nodwyd mewn nifer o adroddiadau a phwysleisiodd nad oedd newid dim yn opsiwn ymarferol am yr holl resymau a gafodd eu nodi yn yr adroddiad.

Ar ôl pwyso a mesur a thrafod trwyadl, PENDERFYNODD y Pwyllgor Trosolwg a Craffu i:

- Cydnabod canlyniad yr ymgynghoriad a'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad a chytuno y bydd unrhyw argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried wrth benderfynu ar gynigion y model darparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl a Gwasanaethau Gofal Oriau Dydd y Cyngor ym mis Medi 2019
- Cytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Gofal Preswyl mewnol (mae'r Cyngor yn cadw lefel o ddarpariaeth o Gartrefi Gofal Preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal seibiant a chymhleth) yng ngoleuni'r adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori; y dybiaeth a wneir o ran galw a chyflenwad parhaus; dadansoddi argaeledd lleol a gofynion daearyddol h.y. radiws 5 milltir.

- Cytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Gofal Dydd y Cyngor (rhaglen gynlluniedig o drawsnewid a moderneiddio) yng ngoleuni'r adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn

  NODYN: Roedd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P. Jarman a D. Macey yn dymuno cael cofnodi'r ffaith iddi gynnig a phleidleisio o blaid y cynnig canlynol a gafodd ei golli: -
  "Bod y Cabinet yn cadw'r lefel bresennol o ddarpariaeth gofal preswyl"

-

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan roi gwybod i Aelodau, a hynny'n rhan o drefn y cyfarfod, i dri aelod i'r cyhoedd wneud cais am gael siarad gerbron y Pwyllgor, sef Dr L Arthur, Mrs A Tritschler, a Mrs H Locke, ac y bydden nhw'n cael gwahoddiad i wneud hynny.

Esboniodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiben yr adroddiad ynglŷn â moderneiddio gofal preswyl a gofal oriau dydd ar gyfer pobl hŷn. Aeth e yn ei flaen i egluro'r rhesymau dros yr adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu heno, sef caniatáu i Aelodau ymgymryd â gwaith cyn craffu ar yr adroddiad sy'n nodi canlyniad y broses ymgynghori 12 wythnos â'r cyhoedd, trigolion, a staff.

Esboniodd y byddai sylwadau'r Aelodau yn rhan o'r adborth y bydd y Cabinet yn ei gael, pan fydd yn trafod y mater yma. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sylw Aelodau y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i gael newyddion rheolaidd ynghylch cynnydd y mater, a lle bo angen, rhoi adborth i'r Cabinet i sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gyfrannu at y cynigion.

Bwriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Demcrataidd a Chyfathrebu olwg yn ôl dros ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hyd yma, gan gyfeirio at y gwaith craffu blaenorol gan y Pwyllgor ar Strategaeth Gofal Ychwanegol y Cyngor (Medi 2017) a'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio gan Swyddogion ar gyfer ymgynghori posibl (Rhagfyr 2018).

Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod ymgymgymryd â gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar hyn o bryd yn y broses dod i benderfyniad yn gwella atebolrwydd ac yn cynorthwyo'r Cabinet ynglŷn â dod i benderfyniadau ar y materion yma yn y dyfodol.

Galwodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ar Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion i gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau a'r Cyhoedd.

Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y rhesymau dros yr angen i foderneiddio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a'u gwella'n barhaus, yn Rhondda Cynon Taf. Soniwyd bod poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu a bod pobl yn byw'n hirach, ynghyd â'r disgwyl y bydd dementia a salwch cyfyngedig, hir tymor yn effeithio ar ragor ohonyn nhw. O ganlyniad i hynny, mae rhaid i'r Cyngor barhau i gynnal gwasanaethau gofal mor effeithiol ag sy'n bosbl i wneud y mwyaf o'r buddion a rheoli pwysau o ran costau. Rydyn ni o'r farn o hyd bod pobl eisiau aros yn eu cartrefi'u hunain lle y bo'n bosibl, ac mae buddsoddi yn rhaglen datblygu Gofal Ychwanegol a pharhau i foderneiddio gwasanaeth Cymorth Gartref a gwasanaethau cymorth eraill i oedolion yn anelu at ddiwallu anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymuned yn well. Byddwn ni hefyd yn parhau i geisio ymateb yn y modd mwyaf addas i anghenion unigolion yn y cyswllt o'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ogystal â sicrhau'u bod nhw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Oherwydd hynny, bydden ni eisiau canolbwyntio'n glir ar roi cymorth ynglŷn ag achosion cymhleth a darpariaeth gofal seibiant.

Dywedodd swyddogion fod galw am leoedd gofal preswyl wedi lleihau, yn bennaf oherwydd bod pobl yn dewis byw yn eu cartrefi'u hunain cyhyd ag y bo modd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion fod 140 o leoedd gwag mewn cartrefi preswyl a nyrsio, fel yr oedd hi ar 28 Mai 2019; mae hynny'n cynnwys 105 o leoedd gofal preswyl yn RhCT.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant hefyd at lythyr diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru: Mae cydnabyddiaeth o'r angen i ddiweddaru darpariaeth llety oedolion mewnol yr awdurdod, yn unol ag anghenion a disgwyliadau newidiol pobl. Mae angen cynnal a chyflymu

datblygiad y newid hwn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn unol ag anghenion presennol ynghyd â rhai a ragwelir. Mae'r bwriad i estyn cyfleusterau gofal ychwanegol ymhellach, yn seiliedig ar adeilad newydd llwyddiannus yn Tonysguboriau a'r adeilad newydd ar safle cyfleuster gofal preswyl blaenorol, yn enghraifft o ymateb ymarferol yr awdurdod lleol i'r angen hwn a nodwyd."

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion i Gyngor Rhondda Cynon Taf gomisiynu cwmni Practice Solutions Ltd i gynnal adolygiad annibynnol ar gartrefi gofal preswyl a gwasanaethau oriau dydd ar gyfer pobl hŷn. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwaith ymchwil i ddechrau, gyda gwaith yn y maes i ddilyn hynny, a oedd yn cynnwys mynd i gartrefi gofal a gwasanaethau oriau dydd sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Cafodd y Cynghorwyr wybod i'r data a'r canfyddiadau gael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2018. Cytunodd y Cabinet ar nifer o argymhellion ynglŷn â model cynnal gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi a Gwasanaethau Gofal y Cyngor.

Fel byddai Aelodau yn cofio, roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o blaid y cyfeiriad i'w ddilyn a'r penderfyniad i ymgynghori ar fodel cynnal gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal a Gwasanaethau Gofal Oriau Dydd y Cyngor. Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion wybod i Aelodau am y prif faterion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd, fel ei gilydd, a oedd yn cynnwys safon y gofal a chymorth sydd ar gael, lleoliad y cartrefi, y goblygiadau ariannol i unigolion sy'n symud i gartrefi gofal preifat.

Clywodd y Cynghorwyr i'r broses ymgynghori ddigwydd o 14 Ionawr 2019 i 8 Ebrill 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu cymaint o sylwadau ag y bo modd gan randdeiliaid â buddiant, yn gymorth i'r Cyngor yn ei broses dod i benderfyniad ynglŷn â strwythur gwasanaethau gofal preswyl ac oriau dydd ar gyfer pobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol.

Soniodd Swyddogion i holiaduron gael eu defnyddio i geisio barn pobl, ynghyd â'r achlysuron ymgynghori. Cafodd Aelodau wybod i 372 o ymatebion ddod i law mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaethau preswyl. Roedd cyfeiriad at 47.3% o bobl a gytunodd â dewis ffafriedig y Cyngor i gadw'r lefel o ddarpariaeth y cartrefi gofal preswyl, sy'n canolbwyntio ar ddarparu ofal cymhleth a seibiant. Roedd 34.9% yn anghytuno â dewis ffafriedig y Cyngor.
O ran y dewis sydd orau gan y Cyngor i ddadgomisiynu ei wasanaethau oriau dydd yn raddol yn rhan o raglen wedi'i chynllunio o drawsnewid yn unol â'r model cynnal gwasanaethau newydd arfaethedig, dywedodd y swyddogion fod 53% o'r bobl a atebodd yn gwrthwynebu'r dewis ffafriedig hwnnw. Cytunodd 48.3% o'r bobl â'r dewis o wneud dim.

Cafodd yr Aelodau'r adroddiad ymgynghori manwl, ynghyd â chrynodeb o'r prif themâu a ddeilliodd o'r ymgynghoriad; gan gynnwys ymatebion swyddogion.

I gloi, rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion grynodeb o'r opsiynau:

Cartrefi Gofal Preswyl:

- Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol - Dim newid
- Cynnig 2: Dadgomisiynu pob un o gartrefi gofal y Cyngor yn raddol yn

rhan o'r rhaglen drawsnewid wedi'i chynllunio, yn unol â gweithredu rhaglen datblygu gofal ychwanegol y Cyngor a safle marchnad gofal Cwm Taf.
- Cynnig 3: (Y cynnig roedd y Cabinet yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori): Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu Cartrefi Gofal Preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal cymhleth a gofal seibiant

Gofal Oriau Dydd:
- Cynnig 1: Parhau â'r trefniadau presennol - Dim newid
- Cynnig 2: Dadgomisiynu gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor yn raddol yn rhan o raglen drawsnewid sy wedi'i chynllunio yn unol â'r model gwasanaeth newydd arfaethedig - dyma'r cynnig sy'n cael ei ffafrio.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad manwl, gan ddweud y byddai'r tri aelod o'r cyhoedd nawr yn annerch y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cafodd y tri siaradwr o du'r cyhoedd, Dr L Arthur, Mrs A Tritschler a Mrs H Locke, y cyfle i annerch y Pwyllgor:

Dywedodd Dr L Arthur, sy'n aelod o'r Grŵp Ymgyrchu Save Care Homes and Centres (SCHAC) ei fod am gadarnhau fod y grŵp yn gefnogol o'r agenda a pholisïau moderneiddio sy'n rhoi dewis a chymorth i bobl, ond roedd o'r farn bendant fod y newid oherwydd y cyni ariannol a gofynion arbed arian. Rhoddodd Dr Arthur wybod i'r Pwyllgor hefyd fod y grŵp yn galw am gynhadledd Cymru-gyfan ar ofal preswyl ac i'r Cyngor ohirio unrhyw doriadau nes bod honno wedi'i chynnal. Cwestiynodd e ddiffiniad gofal cymhleth, ac roedd o'r farn y byddai galw am ofal preswyl yn cynyddu yn y dyfodol, hyn hytrach na lleihau, fel roedd ffigurau'r Cyngor yn awgrymu.

Diolchodd Mrs A Tritschler, Cadeirydd Older Person's Advisory Group (OPAG) Rhondda Cynon Taf i'r Pwyllgor am y cyfle i siarad ar bwnc hynod ddadleuol. Dywedodd hi fod OPAG yn goruchwylio'r Fforymau 50+ yn Rhondda Cynon Taf, sy'n cyfrannu at roi cymorth i fyw yn annibynnol ac i gadw'n fywiog. Dywedodd hi fod y grŵp yn gwrthwynebu'n gryf cau'r cartrefi gofal preswyl heb ddewisiadau addas eraill, a bod aelodau yn amheus o gartrefi gofal preifat a bod ganddyn nhw ddiffyg hyder yn yr hyn maen nhw'n ei ddarparu. Soniodd Mrs Tritschler i nifer o'r bobl yn y grŵp fynd i ddarpariaeth Gofal ychwanegol Tŷ Heulog. Roedd trafnidiaeth yn bryder arall, a'r ddarpariaeth yng Nghwm Rhondda Fach lle dyw hi ddim yn ymddangos bod dewis arall.

Yn olaf, daeth Ms H Locke i siarad ar ran preswylwyr Cartref Gofal Preswyl Parc Newydd yn Nhonysguboriau. Soniodd hi wrth Aelodau am y gwasanaeth o'r radd flaenaf y mae preswylwyr yn ei gael yn y cartrefi gofal sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol, gan ddweud ei bod hi hefyd wedi ymweld â darpariaeth Gofal Ychwanegol Tŷ Heulog; ac er bod y ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda, roedd hi o'r farn na fyddai hi'n addas ar gyfer anghenion 'mwy dwys'.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r rheiny o'r cyhoedd am eu cyfraniad, gan ganiatáu i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ateb y pwyntiau a gafodd eu codi.

Esboniodd e mai diben y broses ymgynghori oedd cael barn y cyhoedd ar sut gall yr Awdurdod barhau i wella a moderneiddio'i wasanaethau gofal preswyl ac

oriau dydd, gan bwysleisio nad oedd hyn mewn ymateb i gyni ariannol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn parhau o'r farn bod angen o hyd am beth ddarpariaeth gofal mewnol, a hynny er gwaethaf bod lleoedd gwag yn y sector preifat – mae gan bobl ddewis ac rydyn ni'n edrych i gynnig dewisiadau gwell yn y dyfodol.

Mewn ateb i'r cwestiwn am ddarpariaeth gofal ychwanegol, esboniodd y swyddogion fod y ddarpariaeth yma'n cael ei defnyddio'n helaeth, mae'n effeithiol yn nhermau costau, ac mae'n rhoi modd i'r preswylwyr fyw mor annibynnol ag y bo modd mewn amgylchedd sy'n cynnwys gofal a chymorth 24 awr i ddiwallu unrhyw anghenion newidiol. Mewn perthynas â'r pryderon ariannol, esboniodd Swyddogion y rheolau ar lefelau'r arbedion, incwm, budd-daliadau ac ati a sut mae'n cymharu â chartrefi gofal.

Gwahoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Mr Sherlock o Practice Solutions i roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y cysyniad o ddarparu gofal ychwanegol a'r ffordd y mae wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio mewn mannau eraill. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr ymateb, ac agorodd yr eitem ar gyfer trafodaeth. Gofynnodd Aelod gwestiwn i Mr Sherlock ynglŷn â pha brofiad sydd ganddo fe mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Mewn ymateb, eglurodd fod ganddo dros 46 mlynedd o brofiad ym maes gofal cymdeithasol a rhoddodd gefndir ar waith cwmni Practice Solutions.
Dywedodd Aelod fod pawb yn cael gwahanol brofiadau o ran gofal ac er bod pobl eisiau aros gartref a byw'n annibynnol, dyw hyn ddim bob amser yn gweithio a mynegodd bryderon ynghylch cyplau yn cael eu gwahanu, ac mae hyn, yn aml iawn, yn golygu nad yw'r ddau yn byw llawer hirach. Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, y gallai gofal ychwanegol fod yn ateb i hyn gan ei fod yn caniatáu i gyplau fyw'n annibynnol gyda chymorth os oes ei angen. Bydd nifer o ystafelloedd dwbl ar gael ym mhob cyfleuster.

Mewn perthynas â'r newidiadau, gofynnodd Aelod pa effaith y byddai'n ei chael ar oedi wrth drosglwyddo gofal (blocio gwelyau) ac a fydd y dull hwn yn y pen draw yn costio mwy i breswylwyr. Esboniodd swyddogion na ddylai fod unrhyw effaith andwyol ac y byddai'n darparu mwy o opsiynau a dewis.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar ofal dementia ac roedd e o'r farn bendant bod angen i ni fel Awdurdod edrych ar urddas pobl a'u hanghenion. O ran hygyrchedd, roedd y Cadeirydd eisiau eglurder ynghylch y cyfeiriad at radiws o bum milltir yn yr adroddiad. Cododd bryderon y gallai'r ddarpariaeth ofal yn ardal Rhondda Fach, yn ddaearyddol, beri pryder gan y gallai olygu y byddai'r preswylydd yn cael mynd y tu allan i'r ardal e.e. Cwm-bach sydd ddim yn ymarferol i drigolion nac aelodau o'r teulu.

Esboniodd swyddogion fod y radiws 5 milltir yn fodd sy'n cael ei ddefnyddio i'n helpu i ystyried yr hyn sydd ar gael yn lleol. Mae pobl eisiau aros yn eu cartrefi'u hunain lle y bo'n bosibl, ac mae buddsoddi yn rhaglen datblygu Gofal Ychwanegol a pharhau i foderneiddio gwasanaeth Cymorth Gartref a gwasanaethau cymorth eraill i oedolion yn anelu at ddiwallu anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymuned yn well. Byddwn ni hefyd yn parhau i geisio ymateb yn y modd mwyaf addas i anghenion unigolion yng nghyd-destun yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn ogystal â sicrhau'u bod nhw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Oherwydd hynny, bydden ni eisiau canolbwyntio'n glir ar roi cymorth

ynglŷn ag achosion cymhleth a darpariaeth gofal seibiant.

Mae Gofal Cymhleth yn derm trosfwaol sy'n cael ei ddefnyddio i gynrychioli llu o ffactorau sy'n cyfrannu at anghenion gofal cyffredinol unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys anghenion emosiynol, ffisiolegol, cymdeithasol, personol, synhwyraidd, cyfathrebu, amgylcheddol ac iechyd. Mae angen ystyried unigolion a'u hamgylchiadau unigol yn y broses asesu lle mae lefelau amrywiol pob un o'r ffactorau uchod yn cael eu hystyried - yna gellir gwneud penderfyniad ar lefel a chategori gofal unigolyn. Bydd yr asesiadau yn cael eu cynnal gan reolwyr gofal cymwys, medrus, rheolwyr cartref cofrestredig a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Tynnodd Aelod sylw at werth pwysig yr awdurdod lleol o ran parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu gofal preswyl, gan gydnabod fod disgwyliadau ac anghenion pobl yn newid. Parhaodd yr Aelod trwy ddweud ei bod o blaid y ddarpariaeth gofal ychwanegol, ond mae angen gofyn cwestiynau allweddol ynglŷn â data. Mae ei phwynt olaf ynglŷn â gwasanaethau gofal oriau dydd a mynd i'r afael ag unigrwydd a heriau dementia yn tynnu sylw at yr angen i ddod o hyd i fodel i wella gwasanaethau i'r bobl hŷn yn RhCT.
Esboniodd swyddogion fod gofal dementia yn flaenoriaeth allweddol ac mai angen fyddai'r ffactor pwysicaf o hyd ar gyfer cyrchu gwasanaethau. O ran gwasanaethau gofal oriau dydd, cyfeiriodd swyddogion at ddatblygu Hybiau Cymunedol a sut y byddai gwasanaethau gofal oriau dydd arbenigol yn canolbwyntio ar yr achosion mwy cymhleth. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth dementia yn ein datblygiadau Gofal Ychwanegol arfaethedig byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Cabinet yn caniatáu i'r Cyngor ganolbwyntio ein gofal preswyl ar yr achosion cymhleth hynny (gan gynnwys lefelau dementia) na fyddai'n cael ei gefnogi'n ddigonol gartref, neu mewn ffyrdd eraill e.e. gofal ychwanegol ac ati. Mae'r safonau Cofrestru newydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni a fyddai eto yn yn gymorth i ni i wella'r ystod o opsiynau a lefelau cymorth y mae angen eu cwrdd mewn cartrefi Preswyl.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddog a oedden nhw'n seilio eu hadroddiad ar lefelau cyfredol y galw neu dueddiadau'r dyfodol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion mai dyma lefel bresennol y galw a chymhwyso dadansoddiad ystadegol ar gyfer y dyfodol. Yn adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rydyn ni wedi crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud i gael gwell dealltwriaeth o'r galw a ragwelir am dai gofal ychwanegol a darpariaeth cartrefi gofal yn Rhondda Cynon Taf ac wedi cymharu hyn â'r ddarpariaeth bresennol. I wneud hyn, defnyddiwyd y model rhagolwg “Mwy o Ddewis, Llais Mwyaf” fel y model sylfaenol ar gyfer pennu galw'r dyfodol.

Rydyn ni wedi darparu sylfaen dystiolaeth yn yr adroddiad ac mae'r bwriad strategol i symud i ffwrdd o ofal sefydliadol ac i wasanaethau cartrefi gofal ganolbwyntio ar gefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth a lefelau difrifol o ddementia yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r ddogfennaeth ranbarthol a lleol sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet o'r blaen gan gynnwys yr adroddiad annibynnol gan Practice Solutions.

Er bod anawsterau achlysurol o ran dod o hyd i leoedd i bobl mewn cartrefi gofal lleol, does dim unrhyw ddiffygion sylweddol yn y ddarpariaeth yn gyffredinol ac mae hyn yn awgrymu bod gormodedd yn lefel bresennol y ddarpariaeth ar gyfer gwelyau preswyl; tra bod gwelyau nyrsio yn cael eu defnyddio'n fwy aml.

Bydd y datblygiad arfaethedig o gartrefi gofal ychwanegol hefyd yn darparu mwy o ddewis i bobl sydd angen lefelau cynyddol o ofal personol. Disgwylir i ddewis o'r fath leihau'r galw am ofal preswyl. Fodd bynnag, does dim disgwyl iddo gael cymaint o effaith ar y galw am ddarpariaeth gofal nyrsio. O ystyried prinder cartrefi gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, tybir y gallai 35% o bobl a roddwyd mewn cartref gofal preswyl fod wedi bod yn addas ar gyfer gofal ychwanegol. Gall argaeledd gofal ychwanegol hefyd annog pobl i ddewis y math hwn o lety cyn i sefyllfa o argyfwng ysgogi'r angen am leoliad cartref gofal. Byddai'r effaith hon yn awgrymu y bydd y galw am ofal preswyl yn gostwng wrth i argaeledd gofal ychwanegol gynyddu.

Yn olaf, bydd yr amserlenni ar gyfer ein rhaglen foderneiddio helaeth ac uchelgeisiol yn caniatáu inni addasu ein dull yn ôl yr angen.

Tynnodd Aelod arall sylw at bwysigrwydd buddsoddi yn y gwasanaeth a diolchodd i swyddogion am gynnal ymgynghoriad mor helaeth. Gofynnodd Aelod a fydd y gofal mewn cartrefi gofal ychwanegol dan ofal cwmnïau allanol. Mynegodd yr Aelod bryder ei bod yn teimlo nad ydyn ni'n gwybod a fydd adeilad yn cael ei gadw yn y sector cyhoeddus ac aeth ymlaen i ddweud nad yw pobl mewn gofal ychwanegol yn cael yr un diogelwch â phobl mewn gofal preswyl. Parhaodd yr Aelod i nodi mai ei farn/barn oedd nad oedd y Cyngor wedi buddsoddi'n ddigonol mewn cartrefi preswyl a gofynnodd pam na wnaed hyn cyn cyrraedd yr hyn a ddisgrifiodd yr aelod fel 'pwynt argyfwng'.

Esboniodd swyddogion, er bod comisiynu gofal yn allanol yn aml yn wir mewn datblygiadau gofal ychwanegol, roedd y Cabinet wedi penderfynu y byddai'r gofal yn cael ei ddarparu gan y Cyngor yn ei ddatblygiadau gofal ychwanegol mwy. Mae cartrefi gofal mewnol y Cyngor yn adeiladau wedi'u dyddio, ac er bod ansawdd y gofal gan staff yn dda, dyw'r cyfleusterau bellach ddim yn cyrraedd safonau modern. Adeiladwyd y cartrefi dros 30 mlynedd yn ôl a doedden nhw ddim i fod i fodloni disgwyliadau cyfredol llety ac fe'u hadeiladwyd ar gyfer cenhedlaeth wahanol o bobl hŷn i rai heddiw. Mae cartrefi gofal pwrpasol modern wedi'u cynllunio i fod yn addas ar gyfer dementia a bod â safon gofod fwy i gefnogi anghenion symudedd / codi. Mae ganddyn nhw hefyd gyfleusterau en-suite, felly mae modd i bobl ddefnyddio'r toiled eu hunain. Mae hyn yn amlwg yn rhan bwysig iawn o gynnal ymdeimlad rhywun o urddas ac annibyniaeth. Wedi dweud hynny, mae cartrefi'r Cyngor yn cwrdd â'r gofynion rheoliadol cyfredol ac mae'r adroddiad Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno gwybodaeth am yr hyn fyddai ei angen i ddod â nhw i safonau modern ynghyd â manylion am y goblygiadau. Fel y dywedwyd eisoes, does dim unrhyw bryderon ynghylch ansawdd cyfredol y gofal.

Gan roi sylwadau a chwestiynau pellach i'r swyddog, cwestiynodd yr Aelod y data sydd wedi'i gyflwyno a nododd fod y data'n ddiffygiol gan fod cyfyngiad derbyn wedi'i roi mewn perthynas â derbyniadau mewn cartrefi gofal. Y pwynt olaf, roedd yr Aelod eisiau mynd i'r afael ag ef oedd ynghylch goblygiadau ariannol Gofal Ychwanegol.

Esboniodd swyddogion fod y proffil demograffig yn ceisio cydbwyso'r ddealltwriaeth o'r galw a'r disgwyliadau newidiol ar gyfer y dyfodol gyda ffocws clir ar wella'r ystod o opsiynau sydd ar gael i gynyddu annibyniaeth i'r eithaf. Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant fod data wedi'i gyflwyno yn dangos y sefyllfa cyn unrhyw gyfyngiadau ac

unwaith eto eglurodd y rhesymeg dros y cyfyngiadau.  O ran y sylw yn ymwneud â phobl yn gorfod gwerthu eu cartrefi i dalu am y gofal, esboniodd Swyddogion y gwahanol drefniadau ariannol sy'n berthnasol i Ofal Ychwanegol.

Dywedodd Aelod, ar ôl edrych ar y wybodaeth gan y siaradwyr cyhoeddus ac os oes angen adnewyddu'r adeilad, a oes ganddyn nhw'r un gofynion ag adeilad newydd o hyd neu a allwn ni fynd o gwmpas hyn?

Esboniodd y Swyddog fod Cartrefi'r Cyngor yn dal i fodloni safonau rheoleiddio ond pwysleisiodd bwysigrwydd darparu'r cyfleusterau gorau posibl i'n pobl gan ystyried disgwyliadau newidiol. Byddai angen i unrhyw adeilad newydd gyrraedd y safonau newydd.

Holodd nifer o Aelodau yr angen i ystyried cydbwysedd daearyddol o fewn cymoedd priodol Rhondda Cynon Taf, gan gyfeirio'n benodol at ardal Cwm Rhondda Fach a'r pryderon posibl yn ymwneud â thrafnidiaeth.
Mewn ymateb i farn yr Aelodau, esboniodd swyddogion fod y dadansoddiad radiws pum milltir yn offeryn i ddarparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn ardaloedd priodol Rhondda Cynon Taf.

Gofynnodd yr aelodau sut y byddai unrhyw newid yn cael ei reoli ar gyfer preswylwyr cyfredol wrth symud ymlaen.

Byddai gweithiwr cymdeithasol yn cael ei neilltuo ar gyfer pob achos unigol, byddai gan bob unigolyn ddewis. Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad Trosolwg a Chraffu, pe bai unrhyw newid y cytunwyd arno bydd y preswylydd a'r teulu yn cael eu cefnogi gan Ymarferydd Gofal Cymdeithasol a fydd yn asesu anghenion unigol ac yn trafod yr hyn sy'n well gyda nhw, ac yn helpu i ddewis gwasanaeth amgen priodol. Bydd hyn yn ystyried materion penodol fel cyfeillgarwch hirsefydlog. Lle bo hynny'n briodol, bydd gweithwyr gofal proffesiynol eraill gan gynnwys meddygon teulu yn cymryd rhan, ynghyd â staff o'r cartref, a fydd, cyn belled ag y bo modd, yn cefnogi trosglwyddiad pob preswylydd i wasanaeth amgen.

Roedd Aelod eisiau eglurder ynghylch y ddarpariaeth gofal oriau dydd gan ei fod yn teimlo ei fod yn achubiaeth i rai aelodau o'r gymuned a phe bai'r ddarpariaeth yn cael ei thynnu, byddai'n cael effaith niweidiol ar eu hanghenion yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth oni bai bod darpariaeth newydd ar gael. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio canolfannau oriau dydd i bobl hŷn ar hyn o bryd, mae yna ymrwymiad y bydd pob unigolyn, ag angen wedi'i asesu, yn parhau i gael yr un lefel o wasanaeth ag y maen nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd o dan unrhyw fodel gwasanaeth newydd. Mae hyn yn bwysig i'w bwysleisio gan fod rhai pobl wedi dehongli'r cynnig ynghylch dad-gomisiynu fel colli gwasanaeth yn hytrach na newid gwasanaeth.

Roedd Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgor eisiau eglurhad ar ychydig o bwyntiau. Gofynnodd am sicrwydd na roddodd yr Awdurdod stop ar osod pobl mewn cartrefi gofal cyn yr adroddiad.

Esboniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, er bod y cyfyngiad wedi'i gymhwyso, roedd nifer o bobl wedi'u gosod yn y cartrefi gofal pan oedd hynny'n opsiwn priodol.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Lles i'r Aelodau am y cyfle i siarad ac eglurodd fod y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles yn cydnabod nad yw gwneud dim yn gynaliadwy a bod pobl yn byw yn hirach gyda'r disgwyliadau'n newid. Esboniodd fod y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles wedi rhoi sylw i'r mater o argaeledd darpariaeth y sector preifat, yn lleol a bod bylchau. Gofynnodd i Swyddogion a ydyn nhw'n credu bod y sector preifat yn gynaliadwy yn ariannol. Esboniodd swyddogion fod risg bob amser ond mae yna wasanaethau nad yw'r Cyngor yn eu darparu e.e. gofal nyrsio. Cadarnhaodd swyddogion fod perthynas waith dda iawn gyda'r sector preifat ac roedden nhw'n teimlo bod hyn yn gryfach nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chyflawiad i'r Pwyllgor am y cyfle i gyfrannu. Dywedodd yr aelod fod y newidiadau sy'n cael eu hystyried yn hir-ddisgwyliedig yn ei farn ef, yn enwedig o'u gweld nhw yn erbyn y cynnydd a wnaed mewn gwledydd Ewropeaidd eraill i foderneiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn i fodloni gofynion a disgwyliadau newidiol.

Cymerodd y Pwyllgor farn cynrychiolwyr yr undebau llafur.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau, y cyhoedd a'r swyddog am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd ei fod yn credu, yn dilyn trafodaethau'r pwyllgor, ei bod yn amlwg bod gwerth mawr yn cael ei roi ar gynnal gwasanaeth gan awdurdodau lleol a bod hyn yn rhywbeth, yn amlwg, y mae'r pwyllgor yn ei rannu, gan gydnabod hefyd bod angen i bethau newid, i gefnogi pobl sy'n byw hirach, i gael dewis i wneud hynny'n annibynnol.

Cydnabu'r Cadeirydd fod Cyfarwyddwr y Gyfadran a'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i'r awdurdod lleol gynnal gwasanaethau. Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn arall, gan ofyn am farn y Cyfarwyddwr, pe bai'r sefyllfa yn codi lle byddai'r Cabinet yn symud ymlaen â'r model a ffefrir a oedd yn destun ymgynghoriad, a fyddai'r Cyngor yn gwneud y peth iawn a pham? Credai'r Cadeirydd fod y sylw hwn yn bwysig ar gyfer y cofnod.
Mewn ymateb i'r cwestiwn, ail-gadarnhaodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ei ymrwymiad i'r agenda newid a gwella a nodwyd mewn nifer o adroddiadau a phwysleisiodd nad oedd newid dim yn opsiwn ymarferol am yr holl resymau a gafodd eu nodi yn yr adroddiad.

Ar ôl pwyso a mesur a thrafod trwyadl, PENDERFYNODD y Pwyllgor Trosolwg a Craffu i:

- Cydnabod canlyniad yr ymgynghoriad a'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad a chytuno y bydd unrhyw argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried wrth benderfynu ar gynigion y model darparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl a Gwasanaethau Gofal Oriau Dydd y Cyngor ym mis Medi 2019
- Cytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Gofal Preswyl mewnol (mae'r Cyngor yn cadw lefel o ddarpariaeth o Gartrefi Gofal Preswyl sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal seibiant a chymhleth) yng ngoleuni'r adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori; y dybiaeth a wneir o ran galw a chyflenwad parhaus; dadansoddi argaeledd lleol a gofynion daearyddol h.y. radiws 5 milltir.

- Cytuno ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Gofal Dydd y Cyngor (rhaglen gynlluniedig o drawsnewid a moderneiddio) yng ngoleuni'r adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn

  NODYN: Roedd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P. Jarman a D. Macey yn dymuno cael cofnodi'r ffaith iddi gynnig a phleidleisio o blaid y cynnig canlynol a gafodd ei golli: -
  "Bod y Cabinet yn cadw'r lefel bresennol o ddarpariaeth gofal preswyl"

**4 Adolygu Trefniadau Etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau cyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol gyflwyno'r adroddiad mewn perthynas â'r 'Adolygiad o Drefniadau Etholiadol y Cyngor gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru', ei fod e wedi derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig gan Aelodau unigol sef y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G. Thomas, R. Turner, M. Griffiths a T. Leyshon a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses adrodd i'r Cyngor llawn.

Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol gefndir yr adroddiad ac eglurwyd bod y Comisiwn bellach wedi llunio ei Gynigion Drafft mewn perthynas â'i adolygiad ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cynnig Drafft, y byddai'r Aelodau wedi cael cyfle i'w hystyried cyn y cyfarfod.

Parhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i egluro bod y Comisiwn bellach wedi cychwyn cyfnod o 12 wythnos o ymgynghori statudol ar yr Adroddiad Cynigion Drafft, sy'n rhedeg o 26 Mehefin 2019 i 17 Medi 2019 ac yn gwahodd sylwadau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r cynnig penodol dan sylw.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried crynodeb y cynnig drafft ar gyfer pob Ward Etholiadol a chyflwyno eu sylwadau fel rhan o adborth yr ymgynghoriad - naill ai yn y cyfarfod neu cyn cyfarfod y Cyngor a fyddai'n ystyried yr Adroddiad Cynigion Drafft.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod i'r Aelodau am eu barn a'u sylwadau.

O ran y Wardiau yn Ardal Rhondda Fach cytunodd yr aelodau yn gryf y dylai lefel y gynrychiolaeth aros fel y mae ar hyn o bryd. Teimlai aelodau y byddai gostwng y niferoedd o chwe Aelod i bedwar Aelod er anfantais i'r preswylwyr sy'n byw yn yr ardal yn enwedig gan nad oedd Cyngor Cymuned a maint yr ardaloedd Ward Etholiadol arfaethedig. Teimlai'r aelodau y byddai nifer yr ysgolion yn yr ardaloedd arfaethedig hefyd yn dioddef, gan y gallai rhai ysgolion fod heb gynrychiolaeth Cynghorydd ar eu cyrff llywodraethu.

Gofynnodd Aelod am eglurhad yn ymwneud â mapiau ardal Pentre'r Eglwys. Sylwodd yr Aelod nad yw eiddo yn ardal Dyffryn y Coed yn cael ei ddarlunio ar y map a gynhwysir yn yr Adroddiad Cynigion Drafft a gofynnodd am eglurhad ynghylch a oedd nifer yr anheddau a'r etholwyr yn yr ardal honno wedi'u hystyried wrth baratoi'r adroddiad. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei wirio ond roedden nhw ar ddeal eu bod wedi'u cynnwys, er nad yw map

yr Arolwg Ordnans a oedd yn cael ei ddefnyddio yn dangos y datblygiad.

Cododd Aelod y cynigion yn ymwneud â chyfuno'r Wardiau Trefforest a'r Graig presennol ac er ei fod yn cydnabod y gallai rhai rhannau o Drefforest drosglwyddo i Ward y Graig dylen nhw aros yn wardiau ar wahân.

O ran y trefniadau arfaethedig ar gyfer Ward Etholiadol Aberpennar, cododd Aelod bryderon ynghylch tangynrychiolaeth a theimlai ei fod yn ymarfer 'chwarae â rhifau' ac mae angen cadw'r trefniadau presennol er budd trigolion yn y cymunedau.

O ran cynnig Treorci, nododd Aelod fod Treorci yn ardal lewyrchus ac yn 'brifddinas y Rhondda' ac mae lleihau'r ward i ward dau Aelod yn dangos diffyg gwybodaeth.

Mewn perthynas â Gogledd a De Aberaman, gofynnodd Aelod a roddwyd ystyriaeth i'r CDLl wrth ystyried y cynnig. Teimlai'r Aelod y dylid bod wedi ystyried ffigurau darogan yn y CDLl ar gyfer etholwyr 2023, ac aeth yr Aelod ymlaen trwy ofyn a allai'r Comisiwn Ffiniau egluro pa lefel o ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i'r agwedd hon wrth fyfyrio ar eu hargymhellion gan y byddai hyn yn cynyddu'r niferoedd o fewn y Ward.

Ar ôl trafodaeth bellach Aelodau **PENDERFYNWYD:**

- Cydnabod Adroddiad Cynigion Drafft y Comisiwn mewn perthynas â Threfniadau Etholiadol y Cyngor yn y dyfodol, fel yr amlinellwyd yn eu cynnig drafft
- Y bydd sylwadau, arsylwadau ac argymhellion yr Aelodau mewn perthynas â'r cynigion Drafft yn cael eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019

## 5 Materion brys

**Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**